10 Chwefror 2026

Annwyl

**ATISN 26649 – Bwyta Allan/eaten out**

Diolch am eich cais i Lywodraeth Cymru am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a dderbyniwyd ar 02 Ionawr 2026 mewn perthynas â Bwyta Allan/eaten out. Gofynnwyd am y canlynol:

- ***Faint o bobl ychwanegol wnaeth farw oherwydd y cynllun 'Bwyta Allan i Helpu Allan'?***
- ***Faint o bobl ychwanegol oedd angen mynediad i ysbyty oherwydd y cynllun uchod?***

**Ymateb**

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cadw'r wybodaeth hon. Ni ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ar y cynllun 'bwyta allan' ac efallai yr hoffech gysylltu ag Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU yn y cyfeiriad canlynol, Sut i wneud cais rhyddid gwybodaeth (FOI): Trosolwg - GOV.UK, i gael yr wybodaeth yr ydych yn ei cheisio.

**Y camau nesaf**

Mae'r cais a anfonwyd ataf yn cynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch chi – eich enw a'ch cyfeiriad, er enghraifft. Llywodraeth Cymru fydd y prosesydd data ar gyfer yr wybodaeth hon ac, yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, bydd yn cael ei phrosesu er mwyn cyflawni ein tasg gyhoeddus a bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Ddeddf ac i roi ymateb i chi.

Bydd yr wybodaeth bersonol hon yn cael ei defnyddio er mwyn ymdrin â'ch cais ac unrhyw faterion sy'n codi yn ei sgil yn unig. Byddwn yn cadw eich gwybodaeth bersonol ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud â'ch cais am dair blynedd o'r dyddiad y bydd eich cais yn cael ei gau'n derfynol. Bydd eich gwybodaeth bersonol wedyn yn cael ei gwaredu mewn modd diogel.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gwybod pa ddata personol yr ydym yn eu cadw amdanoch a chael mynediad atynt
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu i'r data gael eu prosesu neu i gyfyngu ar hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu dileu
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o wybodaeth am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw a'r defnydd a wneir ohoni, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru yn:
Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bost: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch ddyfynnu'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:
Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Fodd bynnag, noder na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei bod wedi bod drwy ein proses adolygu fewnol ein hunain.

Yn gywir